



14 Ebrill 2020

### **YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH A GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB EI MAWRHYDI: AROLYGIADAU AMDDIFFYFN PLANT CENEDLAETHOL: Adroddiad Thematig 2019**

Croesawaf yn fawr y materion y tynnir sylw atynt yn yr adroddiad hwn. Maent yn mynd i'r afael â rhai o'r blaenoriaethau allweddol rwyf wedi ymrwymo iddynt yn Ne Cymru o ran plant a phobl ifanc, gan gynnwys yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddau fy hun, a gwaith prosiect dilynol o fewn fy nhîm ac mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Rwy'n gwybod bod y Prif Gwnstabl yn rhannu'r ymrwymiad hwn a bod ei Gynllun Cyflawni ar gyfer yr heddlu yn gwneud llawer o ymrwymadau clir o ran diogelu pobl sy'n agored i niwed, gan gynnwys plant.

Croesawaf yn benodol y cyfeiriadau yn yr adroddiad at yr angen i weithio'n fwy caled yn lleol ac yn genedlaethol er mwyn mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n golygu bod plant a phobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol ac yn y sector plant sy'n derbyn gofal, yn agored i niwed. Cytunaf fod ymyrraeth gynnar yn hynod bwysig ac rwy'n falch bod yr adroddiad yn cyfeirio at y cynnydd parhaus rydym yn ei wneud yng Nghymru gyda'n rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd, sy'n ceisio mynd i'r afael â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod a'u heffeithiau parhaus. Wrth gwrs, dechreuodd y rhaglen hon yn ardal Heddlu De Cymru, lle rydym yn ei harwain ar y cyd ag lechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae bellach yn cael ei chyflwyno ledled Cymru.

Rwyf hefyd yn falch ein bod yn gwneud cynnydd sylweddol ar y cyd â'r Prif Gwnstabl mewn meysydd eraill y cyfeirir atynt yn yr adroddiad. Er enghraifft, ym mis Mawrth 2020, gwnaethom gyd-lansio ein Siarter Plant, yr ardal heddlu gyntaf yng Nghymru a Lloegr i wneud hynny. Mae'r Siarter yn amlinellu'r ffordd y byddwn yn gweithio gyda buddiannau ac anghenion plant a phobl ifanc, a chafwyd ymateb cadarnhaol gan bobl ifanc yn ein lansiad diweddar. Rydym hefyd wrthi'n cytuno ar Gyd-strategaeth Plant a Phobl Ifanc, sy'n ceisio sicrhau cynnydd mewn nifer o feysydd yn yr adroddiad hwn, gan gynnwys ymgysylltu, ymyrryd yn gynnar ac atal, atal plant a phobl ifanc rhag cael eu troseddoli'n ddiangen, hybu dull gweithredu sy'n ymwybodol

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales



o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac sydd wedi'i lywio gan drawma, a nifer o faterion allweddol eraill.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb ar y Cyd newydd hefyd yn cynnwys amcan ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, ac rydym eisoes yn edrych ar sut i gyflawni'r amcan hwn ym mhob rhan o'r heddlu ac, yn bwysig, yn fy ngwaith fy hun fel Comisiynydd.

Yn ogystal, bydd Uned Atal Trais Cymru, sydd newydd ei sefydlu, yn defnyddio dull iechyd cyhoeddus o ran atal trais ledled Cymru. Er mwyn arwain camau gweithredu ataliol, ymgymerir â gwaith cychwynnol gydag asiantaethau partner allweddol er mwyn llunio darlun eang o ddata sydd ar gael, gyda ffocws penodol ar droseddau ieuencid. Bydd hyn helpu i ddatblygu proffil problemau ar gyfer De Cymru.

Yn gyffredinol, rwy'n falch o'r gwaith sy'n mynd rhagddo a'r mentergarwch a ddangosir er mwyn buddsoddi yn y gwaith o amddiffyn plant a phobl ifanc yn ardal De Cymru. Croesawaf argymhellion yr adroddiad ar gyfer Prif Gwnstabiaid a byddaf yn awyddus i gael diweddariadau parhaus ar gynydd. Fodd bynnag, rwyf o'r farn ein bod eisoes yn gwneud camau sylweddol i fynd i'r afael â nifer o'r materion a godir yn y adroddiad, er nad wyf yn llaesu dwylo ac rwy'n gwybod bod mwy i'w wneud.

Adlewyrchir y farn hon yn sylwadau'r Prif Gwnstabl ar yr adroddiad hefyd, sydd fel a ganlyn:

*'Bydd amddiffyn plant bob amser yn flaenoriaeth i Heddlu De Cymru ac mae wedi'i ymgorffori fel rhan allweddol o Gynllun yr Heddlu a Throseddau. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle i ddatblygu a ffynnu mewn amgylchedd diogel ac yn cael cyfle i gyrraedd ei botensial llawn. Rydym yn cydnabod yn llawn yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad, y mae llawer ohonynt eisoes ar waith yn Ne Cymru, a byddwn yn ceisio parhau i addasu a gwella ein hymateb yn y dirwedd hon sy'n newid drwy'r amser.*

*Rydym yn cydnabod buddiannau ymyrryd yn gynnar a thorri'r cylch niwed cyn iddo waethygu. Mae'r fenter Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, a gyflwynwyd mewn cydweithrediad ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn dangos ein hymrwymiad i brosiectau sydd ar flaen y gad ym maes plismona modern. Mae'r prosiect hwn yn gyson â'r argymhelliad i leihau'r graddau y caiff plant a phobl ifanc eu troseddoli ac*

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales



*yn hytrach ganolbwyntio ar ganlyniadau gwrthdynciadol nad ydynt yn ymwneud â chyfiawnder troseddol.*

*Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod y gallwn barhau i wneud mwy er mwyn atal plant rhag cael eu troseddoli'n ddiangen neu eu denu i droseddau. Mae ein gweithlu yn cael ei addysgu a'i uwchsgilio mewn ffenomenau modern megis 'secstio', er enghraifft, mewn ymdrech i ddeall y pwysau sydd ar ein plant ac atal erlyniadau diangen. Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein timau troseddau ieuencid er mwyn sicrhau dull effeithiol a chymesur o weithredu o ran cyfiawnder ieuencid.*

*Rydym hefyd yn ymwybodol iawn o'r niwed cudd a'r potensial ar gyfer camfanteisio y mae ein plant yn eu wynebu a byddwn yn parhau i ddefnyddio ein hadnoddau a'n hegri er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn sy'n esblygu, megis Llinellau Cyffuriau, Cam-drin a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a throseddau ar-lein. Yn ddiweddar, rydym wedi archwilio ymatebion amgen i blant sy'n mynd ar goll yn aml mewn partneriaeth â'n rhanddeiliaid allweddol ac rydym wedi buddsoddi mewn eiriolwyr hyfforddedig sydd wedi'u hymgorffori yn ein timau ymchwilio Unigolion Coll a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant. Mae ein gwaith yn Ymgyrch Encompass yn enghraifft bellach o'n hymrwymiad i ddiogelu plant sy'n cael eu hamlygu i gam-drin domestig yn y cartref yn gynhwysfawr ac mae trefniadau ein Canolfan Diogelu Amlasiantaeth (MASH) yn ymgorffori gwaith partneriaeth amlasiantaeth ymhellach.*

*Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar faterion amddiffyn plant a byddwn yn barod bob amser i ystyried syniadau newydd ac arloesol. Mae ein dull gweithredu yn y maes hwn yn canolbwyntio ar y plentyn, a buddiannau a 'llais y plentyn' sydd wrth wraidd ein prosesau a'n penderfyniadau. Rydym yn croesawu argymhellion yr arolygiad a byddwn yn parhau i graffu ar ein prosesau ein hunain a dysgu gan ein cymheiriaid a'n partneriaid'.*

Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Prif Gwnstabl ac yn teimlo eu bod yn adlewyrchiad trwyadl a theg o'n sefyllfa ar hyn o bryd. Yn gywir, mae'n cydnabod cynnydd yn ogystal â meysydd y gallwn barhau i'w gwella. Edrychaf ymlaen at gynnydd parhaus yn y maes hwn.

**Y Gwir Anrh Alun Michael**

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English

## Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru  
Police and Crime Commissioner for South Wales



## Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

---

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu  
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU  
ff: 01656 869366  
e: [commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk](mailto:commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk)  
g: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,  
Bridgend, CF31 3SU  
t: 01656 869366  
e: [commissioner@south-wales.pnn.police.uk](mailto:commissioner@south-wales.pnn.police.uk)  
w: [southwalescommissioner.org.uk](http://southwalescommissioner.org.uk)

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg  
The Commissioner and his team welcomes correspondence in Welsh or English